

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod y Cyngor a Gynhaliwyd yn Ysgol Gymuned Penisarwaun Nos Fawrth 1af Dachwedd 201

Yn bresennol :- Y Cadeirydd Y Cynghorydd Elfed Williams, a'r Cynghorwyr, Phyllis Ellis, Rhian Evans, Richard Ll. Jones, Idris Thomas a R. Hefin Williams

Gweddi: Offrymwyd gair o weddi gan Richard Ll. Jones

Ymddiheuriadau. Aled Green, Jane Pierce, Sion Jones a Euryn Roberts

Datgan buddiant. Dim

Cofnodion cyfarfod 4ydd Hydref

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Express Motors – Yn dilyn ysgrifennu at y cwmni yn cŵyno am eu gwasanaeth yn ardal Rhiwlas, derbyniwyd llythyr yn awgrymu eu bod yn dod i gyfarfod o'r cyngor.

Penderfynwyd y buasai cynghorwyr Rhiwlas yn cysylltu gyda'r cwmni bws i drefnu cyfarfod ar y safle yn Rhiwlas, ac efallai gwahodd aelod o trafniadaeth y cyngor a'r heddlu gan fod y broblem o bosib yn cael ei greu gan barcio blêr. Bydd y cynghorwyr yn rhoi adborth yn ôl i'r cyngor yn dilyn y cyfarfod.

Gwaith gan Dwr Cymru ym Mhenisarwaun – Dywedwyd bod cryn drafod o hyd ynglyn a'r golwg sydd wedi ei gadael ar yr hen goeden dderw yn Stablau. Hefyd mae yna dwrw mawr fel eco i glywed yn yr ardal gan waith sydd yn mynd ymlaen yn Cwm y Glo. Mae'r mater yma bellach yn nwylo y Cyngor Sir.

Gwasanaeth Symudol Post – Derbyniwyd llythyr i ddweud fod y gwasanaeth yn debygol o fynd ymlaen dal yn yr un ardal ym Maes Gwylfa ar fore Dydd Gwener. Mae'r Swyddfa Bost yn y broses o wneud trefniadau terfynnol, a bydd mwy o fanylion yn dilyn yn fuan.

Llythyrau Diolch – Derbyniwyd llythyrau yn datgan eu diolch am rodd ariannol gan y cyngor i'r mudiadau gan: Cymdeithas Lenyddol Bethel, LLais Ogwan, Clwb Rhiwen, Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen, Pwyllgor Neuadd Bentref Rhiwlas, Clwb Bowllo a Chlwb Snwcer Bethel, Cynllun Efe, Seindorf Arian Deiniolen, Eisteddfod Undebol Penisarwaun, Pwyllgor Neuadd Penisarwaun, Clwb Bro Bethel a Ysgol Feithrin Deiniolen.

Gohebiaeth a materion eraill

Grŵp Cynefin – Derbyniwyd llythyr gan aelod o'r cwmni a chais i ddod i gyfarfod nesaf o'r cyngor er mwyn trafod yr angen am dai fforddiadwy ac unrhyw anghenion cymunedol eraill sydd yn debygool yn ardal cyngor cymuned Rhiwlas. Y clerch i gysylltu yn ei gwahodd i gyfarfod mis Rhagfyr.

Menter Fachwen - Derbyniwyd llythyr gan brifweithredwr y cwmni ar gais am lythyr cefnogol gan y cyngor i sicrhau ein cefnogaeth at wasanaeth ddolen gymunedol pan fydd y llyfrgell yn cau ym mis Medi. Mae bwriad gan Menter Fachwen i roi cais am grant i redeg y gwasanaeth ac angen y gefnogaeth i hyn a phopeth arall mae'r cwmni yn ei wneud yn Nhy Elidir. Cytunwyd yn unfrydol ein bod yn gwneud hyn, ac yn gyrru llythyr cefnogol yn syth.

Gwaith ar Ceiliog Chwarel Dinorwig – Derbyniwyd llythyr er gwybodaeth gan Peirianydd Sifil, Pwerdy Dinorwig y bydd gwaith yn mynd ymlaen yn ystod y misoedd nesaf ar gryfhau o dan y clogwyn. Ni fydd yn cael effaith ar y llwybrau cyhoeddus yno.

Dinorwig – Bydd cyfarfod pellach o'r gwaith a fwriedir yno yn cymeryd lle Dydd Llun Tachwedd 14 rhwng 5:30 a 7:00 yn y Lodge, lle disgwilir presennoldeb gan gynrychiolwyr o Dwr Cymru.

Cynllunio

Tir ger Pen Dinas Mawr, – Codi adeilad storfa i'r rhandir presennol.

O gwmpas y Bwrdd

Penisarwaun – Llwybr heibio Tai Croesion i Waun, mae debyg fod coeden wedi tyfu, ac yn ei gwneud yn anodd i fynd trwodd.

Cynigiwyd fod angen I bawb ystyried sut y buasem yn gallu denu diddordeb y cyngor cymuned I bobl ifanc ein hardaloedd.

Bethel - Cysgodfan isaf yn Bethel(agosaf at Gaernarfon) mae'n ymddangos fod yna bobl anabl yn ei ddefnyddio yn ddyddiol ac mae angen sedd yno Iddynt orffwys tra yn disgwyl bws. Clerc i gysylltu am bris a gosod.